CYNGOR CYMUNED PISTYLL
COFNODION - CYFARFOD MAI

DYDDIAD	**Nos Fawrth – 11eg o Fai 2021**
AMSER	**7 y.h. – Cyfarfod misol y Cyngor**
LLEOLIAD	**Cyfarfod Rhithiol drwy Zoom**

1.	**CROESO**
	Croesawodd y Cadeirydd Ynyr Ellis (YE) bawb i'r cyfarfod. Yn bresennol heno roedd Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)** a'r Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ).**
2.	**YMDDIHEURIADAU**
	Sara Williams **(SW),** John Owen **(JO),** William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**.
3.	**DATGAN DIDDORDEB**
	Dim
4.	**DIWEDDARIADAU ASEDAU**
	Derbyniwyd addasiad i Gofrestr yr Asedau yn gywir, roedd hyn yn cynnwys ychwanegu un bin maint 50 lts. Adroddodd GJ bod caead y bin gwastraff ci yng ngwaelod Lon y Plas wedi cael ei dorri. GJ i yrru lluniau ymlaen i'r clerc. Y clerc i gysylltu â Glasdon i ofyn am ymateb boddhaol. Esboniodd y clerc nid oedd cais y Cyngor Cymuned i osod bin gwastraff ci ychwanegol yn y Mae Parcio yn Nant wedi bod yn llwyddiannus. Yn hytrach derbyniwyd caniatâd i osod bin ychwanegol ochor arall y pentref.
5.	**COFNODION CYFARFOD EBRILL 2021**
	a) CYFLWYNO A MABWYSIADU Cynigiodd SP I'r Cyngor dderbyn y cofnodion yn gywir, eiliodd GJ a chytunodd pawb. **b) MATERION YN CODI** I) <u>Goleuadau Lôn Plas</u> Gofynnodd SP I'r clerc wneud ymholiadau pellach gan nad oedd y broblem gyda goleuadau Lôn Plas wedi ei ddatrys. Esboniodd y clerc yn wreiddiol roedd wedi derbyn gwybodaeth bod y broblem dan ddaear felly wedi cael ei gyfeirio at Scotish Power I ddarparu'r gwaith ond yn ystod y mis derbyniwyd gwybodaeth bellach bod y broblem yn parhau yn nwylo'r Cyngor Sir a bydd yn cael ei gyflawni cyn gynted a bo modd.

Llofnodwyd gan..... *Dyddiad.....*

	II) <u>Twmpathau arafu yn Llithfaen</u> Gan nad oed y clerc wedi derbyn ymateb i'r gwyn awgrymodd AJ gysylltu yn uniongyrchol a Rheolwr yr Adran. Esboniodd fod Dylan Wyn Jones bellach mewn swyddogaeth arall. iii) <u>Anedd wedi ei godi heb gais Cynllunio yn Llithfaen</u> Adroddodd GW ei fod bellach wedi derbyn y ffurflenni priodol gan y clerc i osod y gwyn yn ffurfiol gyda'r Cyngor Sir. Cytunwyd iddo ei yrru nôl ar ran y Cyngor Cymuned. iiii) <u>Toiledau Cyhoeddus Llithfaen</u> Esboniodd y clerc ei bod wedi gofyn am wybodaeth i'r Cyngor Sir ond hyd yn hyn heb dderbyn ymateb. Esboniodd AWJ wybodaeth roedd wedi ei dderbyn i ymholiad iddo wneud ar doiledau cyhoeddus eraill ac awgrymodd i'r Clerc gysylltu yn unionyrchol a Steffan Jones.
6.	**CEISIADAU CYNLLUNIO**
	RHIF CAIS: C21/0384/43/LL - YSGUBOR, LLITHFAEN, PWLLHELI, LL53 6NH Dim i'w drafod. Esboniodd GJ mae ei gais o yw hwn a'i fod wedi ei ohirio i wneud addasiadau.
7.	**GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO**
	Adroddodd SP ei bod wedi derbyn gwybodaeth gan y Cyfreithiwr bod posib i'r Cyngor gofrestru cwbl y tir comin yn enw'r Cyngor. Cynnigiodd YE gofrestru cwbwl yn yn enw'r Cyngor, eiliodd GJ a cytunodd pawb.
8.	**GJ – CODI I BARCIO YN Y MAES PARCIO**
	Adroddodd GJ bod moduron yn parhau i wersylla yn y Maes Parcio ar ben y Nant dros nos ac awgrymodd i'r Cyngor sefydlu peiriant Talu ac Arddangos ar y safle. Y pryder fwyaf gan yr aelodau oedd tirwedd amgylcheddol a phosibilrwydd buasai RV's yn gwersylla mewn mannau eraill hynod ar hyd y lon. Trafodwyd posibilrwydd eraill fel rhwystrau uchder, llygaid parcio, a giât yn Llithfaen Bach. Adroddodd SP bod yr Heddwas Lleol wedi cytuno cadw golwg ar y mater a hebrwng troseddwyr o'r safle. Bydd angen trafod mater plismona unrhyw benderfyniad yn y dyfodol. Awgrymodd SP i'r Cyngor osod arwyddion mwy ar y safle yn y cyfamser. Y clerc i chwilio am bris arwydd a gwneud ymholiadau ar gost Talu ac Arddangos.
9.	**GJ - CAIS I'R CYNGOR DREFNU TORIAD I FYNWENT CARNGUWCH, LLWYNDYRYS**
	Derbyniwyd cais gan wirfoddolwyr y Fynwent i'r Cyngor Cymuned baratoi un toriad ar eu rhan. Gan nad yw'r Cyngor Cymuned yn darparu gwasanaeth torri gwair awgrymodd SP buasai posib i'r gwirfoddolwyr wneud cais swyddogol am gymorth tuag at gost torri gan fusnes. GJ i ddiweddaru'r gwirfoddolwyr.
10.	**Y GANOLFAN**
	Esboniodd SP bod adroddiad Kimberly Gulf yn cadarnhau bod tamprwydd yn fwy problematic na ddisgwylir yn y Ganolfan a'i fod hefyd yn y to. Ychwanegodd bydd y gost yn enfawr i wared arno. Adroddodd ei bod yn ceisio paratoi cyfarfod gyda'r Cyngor Sir ac aelodau'r Cyngor Cymuned i drafod y mater ymhellach. Cytunodd GW ac YE i fynychu'r cyfarfod. SP i yrru gwahoddiad hefyd i JO.

Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas *E.bost: ccpistyll@outlook.com*
1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP *Ffon symudol: 07979438307*

11.	**LLWYBR CERDDED I LITHFAEN**
	Nid oedd AWJ gyda diweddariad ar y noson. Y mater i'w drafod mis nesaf.
12.	**MATERION LLEOL**
	Llwybr heibio Capel Isaf Llithfaen Holodd SP pwy yw perchnogion y llwybr gan ei fod wedi derbyn cwyn gan Swyddog ANHE ei bod yn amhosib i'w gerdded. Y clerc i wneud ymholiad gyda'r Cyngor Sir.
13.	**CAIS Y CYNGOR SIR I'R CYNGOR CYMUNED SEFYDLU TREFNIANT PARTHED BINIAU BAW CI**
	Adroddodd y clerc bod cais wedi ei wneud gan Bennaeth yr Adran i'r Cyngor drefnu gwagio'r biniau ar ddyddiad penodol - Cytunwyd trefnu eu gwagio ail wythnos y mis yn fisol.
14.	**ARCHWILIAD 2020**
	a) DATGANIAD CYFRIFON 2020-21 Ardystiwyd a chymeradwywyd cyfrifon 2020-21 gyda GW yn cynnig eu cywirdeb a GJ yn eilio, cytunodd pawb. **b) ASEDAU'R CYNGOR** Gweler pwynt 4.
15.	**GOHEBIAETH A GWYBODAETH**
	a) DAFYDD RHUN – TIR COMIN LLITHFAEN Derbyniwyd ran gwybodaeth **b) CYNLLUNIO – FFURFLEN CWYN GORFODAETH** Derbyniwyd ran gwybodaeth **c) LLYTHYR DIOLCH GAN BWYLLGOR Y CAE CHWARAE** Derbyniwyd ran gwybodaeth **d) ANFONEB DANNY'S GARDEN SERVICES** Derbyniwyd ran gwybodaeth **e) ANFONEB CYNGOR GWYNEDD – BINIAU** Derbyniwyd ran gwybodaeth **f) ANFONEB GLASDON – BIN 50LTS** Derbyniwyd ran gwybodaeth

Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas *E.bost: ccpistyll@outlook.com*
1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP *Ffon symudol: 07979438307*

16. CYLLID

a) CYFRIFON 2021/22

Cynigwyd y cyfrifon yn gywir gan GW gyda GJ yn eilio, cytunodd pawb.

b) TRAFODION Y GYFRIFLEN BANC DIWEDDARAF

			Cyfrif Cyfredol 01/04/21 – 30/04/21 - £5,520.78
Taliadau -	£160.00		Cyflog Clerc
	£14.00		Treuliau Clerc
	£98.00		Aelodaeth Un Llais Cymru
	£2,000.00		Rhodd i Ganolfan Llithfaen
Derbyniadau-		£6,000.00	
Balans			**£9248.78**

Cyfrif Cadw 07/04/21 – 06/05/21 - £2,660.73	
Derbyniadau -	0.00
Balans	**£2,660.73**

c) TALIADAU I'W CYMERADWYO

Cyflog Clerc	**201100**	**160.00**
Treuliau Clerc	**201201**	**61.50**
Cyngor Gwynedd (Biniau Ci)	**201202**	**16.85**
D. P Osborn	**201203**	**240.00**
Glasdon Uk ltd	**201204**	**334.53**
Parry Davies Clwyd-Jones a Lloyd	**201205**	**300.00**

17. TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

8fed Fehefin – Lleoliad i'w benderfynu yn ystod y mis.

Llofnodwyd gan..... *Dyddiad .....*